

DEDDF CEFN GWLAD A HAWLIAU TRAMWY 2000

Yn unol â Pharagraff 2 o Atodlen 5, a Pharagraff 4 o Atodlen 6 y Ddeddf hon, rhaid i bob Awdurdod Priffyrdd lunio cofrestri cyhoeddus ar gyfer mathau penodol o orchmynion a dderbyniodd ac a ystyriodd, a allai arwain at newid y map. Rhaid i Awdurdodau hefyd gofrestru datganiadau'n cyfyngu ar sefydlu llwybrau newydd ar draws tir preifat.

Ystyriwyd bod angen y cofrestri i gynorthwyo cynyddu gwybodaeth ymysg tiffeddianwyr, defnyddwyr hawliau tramwy, a'r cyhoedd ynghylch ceisiadau a allai, neu sydd wedi, arwain at newidiadau i'r map diffiniol a/neu ddatganiad, neu ddigwyddiadau a allai effeithio ar newidiadau o'r fath.

Rhaid cynnal y cofrestri hyn ar gyfer mynediad y cyhoedd atynt ar-lein ac fel cofnodion papur yn Neuadd y Sir yn Rhuthun. Gellir gweld y wybodaeth hefyd yn swyddfa'r Uned Hawliau Tramwy yn Ninbych.

Rhaid i'r Awdurdod ddarparu'r cofrestri canlynol.

Cofrestr Adran 53b

Ceisiadau am Orchmynion Addasu'r Map Diffinol (DMMO) a wnaed dan adran 35(5) o'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. O ran pob cais dan adran 35(5) y Ddeddf, mae'r gofrestr yn cynnwys:

- Copi o'r cais gyda chopi o unrhyw fap a gyflwynwyd gyda'r cais
- Disgrifiad o'r effaith a fwriadwyd o'r cais
- Disgrifiad o'r lleoliad daearyddol perthynol i'r cais

- Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd, gan gynnwys côd post (yn amodol ar eithriadau ar gas yr ymgeisydd)
- Dyddiad derbyn y cais gan yr awdurdod mesur tir
- Unrhyw ddyddiad a bennwyd gan yr awdurdod ar gyfer penderfynu'r cais
- Unrhyw gyfeirnod unigryw a neilltuwyd i'r cais gan yr awdurdod ynghyd â manylion y person sy'n gyfrifol am ddelio â'r cais
- Dolen gyswllt i weld y lleoliad ar fap ar-lein y Sir

Er mwyn defnyddio'r gofrestr ar-lein i chwilio am newid, chwiliwch am y canlynol:

- Tref / Pentref
- Ardal Cyngor Cymuned
- Côd post
- Cyfeir-rif y Cais

Cofrestr Adran 31a

Cofrestr o ddatganiadau a gyflwynwyd a mapiau a datganiadau a adneuwyd gan dirfeddianwyr gydag Awdurdodau Priffyrdd Lleol dan adran 31(6) o Ddeddf Priffyrdd 1980 o'u bwriad i BEIDIO â chyflwyno unrhyw hawliau tramwy newydd dros eu daliadau tir. O ran pob datganiad a adneuwyd dan adran 31(6) o'r Ddeddf, mae'r gofrestr yn cynnwys:

- Datganiadau a mapiau yr adneuodd tirfeddianwyr gyda'r Cyngor Sir
- Datganiadau cysylltiedig dan lw
- Dolen gyswllt i weld y lleoliad ar fap ar-lein y Sir

Yn absenoldeb tystiolaeth i'r gwrthwyneb, mae adneuo'r datganiadau hyn gyda'r Cyngor Sir yn dystiolaeth ddigonol nad yw tiffeddianwyr neu eu hollynwyr yn y teitl yn bwriadu rhoi unrhyw hawliau tramwy ychwanegol i'r cyhoedd dros eu heiddo, heblaw'r rhai a gynhwyswyd yn benodol yn y datganiad.

Fodd bynnag nid yw cyflwyno datganiad yn effeithio ar unrhyw hawliau a ddaeth i fodolaeth trwy ddefnydd cyhoeddus cyn dyddiad y datganiad.

Wrth newid perchenogaeth ni fydd gan ddatganiadau effaith bellach oni chânt eu hadnewyddu gan y perchennog newydd. Erys y cyfrifoldeb i hysbysu'r Cyngor o newid perchenogaeth gyda pherchennog yr eiddo.

Daw datganiadau i ben ar ôl 10 mlynedd heb eu hadnewyddu. Os na chânt eu hadnewyddu byddant yn effeithiol yn erbyn hawliadau am hawliau tramwy os digwyddodd unrhyw ran o'r cyfnod 20 mlynedd at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980 Aadrann 31(1) tra'r oedd datganiad yn ddilys.

Defnyddiwch y gofrestr ar-lein i chwilio am ddatganiad gan ddefnyddio'r meysydd canlynol:

- Tref / Pentref
- Ardal Cyngor Cymuned
- Côt post
- Cyfeir-rif – cliciwch ar yr orchymyn a fynnwch

Cofrestr Adran 121(b)

Cofrestr o geisiadau am Orchymnion Llwybrau Cyhoeddus a wnaed dan Adrannau 118ZA, 118C, 119ZA neu 119C o'r Ddeddf Priffyrdd 1980.

Ar hyn o bryd nid yw Adrannau 118ZA, 118C, 119ZA nac 119C o'r Ddeddf Priffyrdd 1980 mewn grym, ac felly nid oes unrhyw rwymedigaeth ar y Cyngor i gofnodi unrhyw geisiadau vyn i Lywodraeth Cymru alluogi adrannau hynny'r Ddeddf. Gall y cyngor gadw cofrestr i gynnwys ceisiadau eraill am orchmynion a wnaed dan adrannau eraill 118 ac 119, ond nid oes unrhyw ymrwymiad arno i wneud hynny. Ni fydd yn gwneud hynny heblaw pan fo adnoddau'n caniatáu a phan fo'n ystyried bod budd cyhoeddus o wneud hynny.